



CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

**2000 Rhif 1169 (Cy. 94 )**

**2000 No. 1169 (W. 94 )**

**CAFFAEL TIR,  
CYMRU  
CYNLLUNIO GWLAD A  
THREF, CYMRU**

**ACQUISITION OF LAND,  
WALES  
TOWN AND COUNTRY  
PLANNING, WALES**

Gorchymyn Cynllunio Gwlad a  
Thref (Darpariaethau Malltod)  
(Cymru) 2000

The Town and Country Planning  
(Blight Provisions) (Wales)  
Order 2000

**NODYN ESBONIADOL**

**EXPLANATORY NOTE**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

*(This note does not form part of the Order)*

Mae darpariaethau hysbysu malltod yn adrannau 149 i 171 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ("y Ddeddf") yn galluogi personau â buddiannau penodol mewn categorïau o dir, a bennir yn Atodlen 13 i'r Ddeddf (gan gynnwys tir yr effeithir arno gan gynigion cynllunio a phriffyrdd penodol), i'w gwneud yn ofynnol i'r awdurdod priodol gaffael eu buddiant yn y tir. Un o'r buddiannau mewn tir sy'n gymwys i gael ei ddiogelu yw buddiant perchennog-feddiannydd hereditament (sy'n golygu hereditament perthnasol o fewn ystyr adran 64(4)(a) i (c) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988) lle nad yw gwerth blynyddol yr hereditament yn fwy na'r swm y caiff yr Ysgrifennydd Gwladol ei ragnodi (adran 149(3)(a) o'r Ddeddf). Breiniwyd y pŵer hwnnw bellach, i'r graddau y mae'n arferadwy yn Nghymru, yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r Gorchymyn hwn yn cynyddu'r terfyn gwerth blynyddol hwnnw o £18,000 i £24,600 er mwyn cymryd ailbrisió'r ardrethu yn y flwyddyn 2000 i ystyriaeth.

The blight notice provisions in sections 149 to 171 of the Town and Country Planning Act 1990 ("the Act") enable persons holding certain interests in categories of land, specified in Schedule 13 to the Act (including land affected by certain planning and highway proposals), to require the appropriate authority to acquire their interest in the land. One of the interests in land which qualifies for protection is an interest of an owner-occupier of a hereditament (which means a relevant hereditament within the meaning of section 64(4)(a) to (c) of the Local Government Finance Act 1988) where the annual value of the hereditament does not exceed such amount as may be prescribed by the Secretary of State (section 149(3)(a) of the Act). That power, so far as exercisable in Wales, is now vested in the National Assembly for Wales. This Order increases such an annual value limit from £18,000 to £24,600 to take account of the rating revaluation in the year 2000.

Yn wreiddiol, gwnaed Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Darpariaethau Malltod) 1990 o dan bwerau Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1971. Ymgorfforwyd Erthyglau 2 a 3 y gorchymyn, fel y'u gwnaed, yn y Ddeddf ac, o ganlyniad, mae erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn yn diddymu Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Darpariaethau Malltod) 1990 i'r graddau y mae'n gymwys i Gymru.

The Town and Country Planning (Blight Provisions) Order 1990 was originally made under the Town and Country Planning Act 1971 powers. Articles 2 and 3 of the Order as made have been subsumed into the Act and consequently, Article 3 of this Order revokes the Town and Country Planning (Blight Provisions) Order 1990 insofar as it applies to Wales.

Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i Gymru'n unig.

This Order applies to Wales only.

2000 Rhif 1169 (Cy. 94 )

2000 No. 1169 (W. 94 )

**CAFFAEL TIR,  
CYMRU  
CYNLLUNIO GWLAD A  
THREF, CYMRU**

**ACQUISITION OF LAND,  
WALES  
TOWN AND COUNTRY  
PLANNING, WALES**

Gorchymyn Cynllunio Gwlad a  
Thref (Darpariaethau Malltod)  
(Cymru) 2000

The Town and Country Planning  
(Blight Provisions) (Wales)  
Order 2000

*Wedi'i wneud* 11 Ebrill 2000  
*Yn dod i rym* 12 Ebrill 2000

*Made* 11th April 2000  
*Coming into force* 12th April 2000

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Gorchymyn canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 149(3)(a) a 333(7) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990(a) ac adrannau 143 a 147 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988(b), ac a freiniwyd bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(c) a phob pŵer arall sy'n ei alluogi yn y cyswllt hwnnw -

The National Assembly for Wales makes the following Order in exercise of the powers conferred on the Secretary of State by section 149(3)(a) and 333(7) of the Town and Country Planning Act 1990(a) and sections 143 and 147 of the Local Government Finance Act 1988(b), and now vested in the National Assembly for Wales(c) and of all other powers enabling it in that behalf -

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

1.-(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Darpariaethau Malltod) (Cymru) 2000 a daw i rym ar 12 Ebrill 2000.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i Gymru'n unig.

**Citation, commencement and application**

1.-(1) This Order may be cited as the Town and Country Planning (Blight Provisions) (Wales) Order 2000 and shall come into force on 12th April 2000.

(2) This Order applies to Wales only.

**Terfyn y gwerth blynyddol**

2. £24,600 yw'r swm a ragnodir ar gyfer dibenion adran 149(3)(a) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

**Limit of annual value**

2. The amount prescribed for the purposes of section 149(3)(a) of the Town and Country Planning Act 1990 is £24,600.

**Diddymu**

3. Diddymir drwy hyn Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Darpariaethau Malltod) 1990(ch) i'r graddau y mae'n gymwys i Gymru.

**Revocation**

3. The Town and Country Planning (Blight Provisions) Order 1990(d) is hereby revoked insofar as it applies to Wales.

(a) 1990 p.8.

(b) 1988 p.41.

(c) Gweler erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddo fel y'i diwygiwyd gan erthygl 4 o O.S. 2000/253 (W.5) ac Atodlen 3 iddi.

(ch) O.S. 1990/465.

(a) 1990 c.8.

(b) 1988 c.41.

(c) See article 2 of and Schedule 1 to the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672) as amended by article 4 of and Schedule 3 to S.I. 2000/253 (W.5).

(d) S.I. 1990/465.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(a).

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(a).

11 Ebril 2000

11th April 2000

*D Elis Thomas*

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

The Presiding Officer of the National Assembly

---

OFFERYNNAU STATUDOL

---

**2000 Rhif 1169 (Cy. 94 )**

**CAFFAEL TIR,  
CYMRU  
CYNLLUNIO GWLAD A  
THREF, CYMRU**

Gorchymyn Cynllunio Gwlad a  
Thref (Darpariaethau Malltod)  
(Cymru) 2000

---

STATUTORY INSTRUMENTS

---

**2000 No. 1169 (W. 94 )**

**ACQUISITION OF LAND,  
WALES  
TOWN AND COUNTRY  
PLANNING, WALES**

The Town and Country Planning  
(Blight Provisions) (Wales)  
Order 2000

©<sup>®</sup> Hawlfraint y Goron 2000

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg El Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

**£1.50**

WO6094 05/00 ON

© Crown copyright 2000

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090050-2



9 780110 900506